

Cwmni

Rhifyn 208

Pris 80c

Mis Rhagfyr 2018



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn, Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Oedfaon Mis Rhagfyr a Mis Ionawr

Bedyddwyr Tonyfelin

Mis Rhagfyr

2il 10.30 a 6.00 : Glyn Tudwal Jones
9fed 10.30 : Parch Lona Roberts 6.00 : Parch Gareth Evans
16eg Yn Bethel trwy'r dydd
23ain 10.30 : Oedfa Nadolig 6.00 : Carol a Channwyll
30ain 10.30 yn unig : I'w drefnu

Mis Ionawr

6ed 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
13eg 10.30 a 6.00 : Mr Mansel Jones
20fed Yn Bethel trwy'r dydd
27ain 10.30 : Mr J Gwynfor Jones
6.00 : Parch Glyn Tudwal Jones

Annibynwyr Bethel

Mis Rhagfyr

2ail 10.30 Parch Robert Owen Griffiths
9fed 10.30 Parch Denzil John (C)
16eg 10.30 Parch Andrew Jones
23ain 10.30 Gwasanaeth y Plant
6.00 Carol a Channwyll yn Nhonyfelin
25ain 9.30 Gwasanaeth y Nadolig
30ain 10.30 Gyda Tonyfelin

Mis Ionawr

6ed 10.30. Plygain.
13eg 10.30. Parch Lona Roberts
20fed 10.30 a 6 y.h. Y Parch Robert Owen Griffiths (C bore)
27ain 10.30 a 6 y h. Gyda Tonyfelin

Capel y Groeswen

ADVENT SERVICE

Rhagfyr 2ail am 3:00

Rev. Mark Greenaway

16eg 2.30 CAROL SERVICE
Mrs Sioned Issacs

Ni fydd cyfarfod yn ystod
mis Ionawr

Penuel, Rhymni

Mis Rhagfyr

2ail Parch Tudor Jones
9fed Parch Aled Thomas
16eg Rhydd
23ain Carolau
30ain Parch Dafydd Jones.

Llun y Clawr: Mary Jones

Ein Rheilffyrdd—Newidiadau



Roedd yna deimlad rhyfeddol o gyfarwydd neu *déja vu* pan gyrhaeddodd trên cyntaf Trafnidiaeth Cymru brif orsaf Caerffili ar ddiwrnod gêm fawr yng Nghaerdydd. Trafnidiaeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am ein trenau ni wedi i Keolis Amey ennill yr hawl i wneud hynny am y 15 mlynedd nesa, oddi ar Drenau ARRIVA Cymru. Ond yr un hen stori oedd hi ar y 3ydd o Dachwedd wrth i lu o gefnogwyr ddisgwyl y trê 12.10 i fynd â nhw i weld Cymru yn chwarae yn erbyn Yr Alban. Ond dau gerbyd gorlawn a ddaeth a bu rhaid i bawb ddisgwyl chwarter awr arall cyn i drên ac iddo bedwar cerbyd ymddangos. Ac nid yn unig roedd lle i bawb ond llwyddodd nifer ddod o hyd i seddi.

Yr un hen stori? Ie, wrth gwrs. Ond wedi'r cyfan does dim disgwyl i unrhyw gwmni masnachol, neu gyhoeddus o ran hynny, brynu digon o gerbydau i ddiwallu galw nad yw'n digwydd mwy na ryw saith neu wyth gwaith y flwyddyn. Ond, ar y llaw arall, os yw'r cwmni newydd yn mynd i ddefnyddio'r lle sydd ar gyfer chwe cherbyd ym mhob gorsaf yng Nghwm Rhymni, bydd yn rhaid buddsoddi mewn mwy o gerbydau nag oedd gan eu rhagflaenwyr. Roedd hi'n ddiddorol darllen yn y *Western Mail* bod sawl gwasanaeth gwledig lle mae'r gwasanaeth yn anfynych, wedi colli eu trenau i fodloni rhuthr diwrnod gêm fawr.

Yn fuan wedi'r profiad hyn bu Cymdeithas yr Iaith yn gwrthdystio yn erbyn anallu neu amharodrydd Trafnidiaeth Cymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Eu cwyn oedd mai yn Saesneg yn unig mae gwefan y cwmni; cyhoeddiadau yn Saesneg yn unig ar y trenau; yr ap newydd ar gyfer tocynnau hefyd yn Saesneg a pheiriannau nad ydynt yn gweithio'n iawn yn y Gymraeg.

Ymateb Trafnidiaeth Cymru oedd, "Mae gennym gynlluniau cyffrous yn Trafnidiaeth Cymru i weddnewid trafrnidiaeth ar gyfer y cenedlaethau i ddod gan gynnwys cynlluniau uchelgeisiol i wella gwasanaethau dwyieithog ar gyfer ein cwsmeriaid."

Mae'n anffodus, wrth gwrs, bod yn rhaid ymgyrchu cyn gweld gwelliannau, ond mae'n bleser nodi iddynt gynhyrchu taflen "Trên Adref ar ôl y Digwyddiad" yn y ddwy iaith ar gyfer y y gemau wedi gêm Awstralia.

Ond beth yw'r "Cynlluniau Uchelgeisiol" hyn ar gyfer yr iaith a phethau eraill? Datgelodd dogfen a rhyddhawyd ym mis Hydref addewid o drenau newydd, mwy o wasanaethau ar y Sul (cynnydd o 61%), gwella gorsafoedd a darparu rhai newydd â mwy o fannau parcio.

Mae twnnel y rheilffordd sy'n cysylltu Caerffili a Chwm Rhymni â Chaerdydd yn gampwaith peiranyddol ond mae'n drist nodi na wneir defnydd llawn ohono. Pa obaith fyddai o adeiladu twnnel tebyg yn yr oes sydd ohoni, heb sôn am yr hinsawdd ariannol bresennol? Gallai'r twnnel yn hawdd gymryd trenau chwe cherbyd. Ac o ystyried y tagfeydd traffig sydd yn nodwedd mor gyfarwydd o'n heolydd erbyn hyn, y naill ochr a'r llall o'r mynydd, byddai ymestyniad o'r fath i'r gwasanaeth yn amhrisiadwy.

Ond beth am y gost? Bu cryn sôn am drydaneiddio gan brin ystyried y gwir gost a'r manteision amheus. Cynhaliwyd gwaith drud mewn sawl man wrth orfod codi uchder pontydd. Ond dywed y cwmni y bydd rhaglen o adnewyddu trenau i'w gwneud yn drenau triphlyg (*tri modal*). Mewn datganiad dywedwyd: "Deallir y bydd ar lein Rhymni stoc o drenau newydd gyda'r gallu i newid rhwng disel, trydan a batris. Felly ni fydd galw am drydanu lein Cwm Rhymni i gyd gan gynnwys Twnel Caerffili."

Aeth Prif Weithredwr Keolis UK, Alistair Gordon, ymlaen i ddweud, ymhen pum mlynedd "fydd pobol ddim yn adnabod" rheilffyrdd Cymru o'r hyn y'n nhw heddiw, wedi dioddef blynyddoedd o danfuddsoddi. Bydd teithwyr yn gweld gwelliant mewn lefelau gwasanaeth o fis Rhagfyr 2018 gyda mwy o le ar Leiniau'r Cymoedd.



Ein Rheilffyrdd - *parhad*

Bydd Keolis Amey hefyd yn llunio cyfnod nesa'r Metro gan drydanu craidd y Valley Lines lle neilltuwyd £738m ac mae llywodraeth San Steffan wedi cadarnhau cyfraniad o £125m. Am fwy o fanylion mae'n werth mynd ar wefan y cwmni, www.walesonline.co.uk/business/business-news/huge-investment-runningbillions-transform

Gwnaed peth gwaith er mwyn cynyddu amllder trenau i Rymni drwy ddatblygu man pasio yn Nhir Phil. Efallai y gallai hyn arwain at gynyddu amllder y trenau sy'n aros yng ngorsaf newydd Churchill Park/ Genau'r-glyn. Mae addewid o ddatblygiad tebyg ar y lein rhwng Glyn Ebwy a Chaerdydd. A ddim cyn pryd o ystyried i'r nifer sy'n teithio ar y cyfleustra gweddol newydd hyn fod bedair gwaith mwy na'r hyn a oedd wedi'i ddarogan. Ac os oedd modd defnyddio'r lein oedd yn cario nwyddau ar gyfer teithwyr yng Nglyn Ebwy, pam na ellir gwneud yr un peth rhwng Ystrad Mynach a Bedlinog ac, o ran hynny, o Gaerffili i Gasnewydd gan ddefnyddio'r cledrau sydd eisoes yn rhedeg o Fedwas?

Croesawyd yr orsaf newydd ar gyfer Genau'r Glyn a Churchill Park gan drigolion y rhan hynny o Gaerffili ond heblaw am ddiffyg amllder y trenau sy'n aros yno, y feirniadaeth arall yw mai prin yw cyfraniad yr orsaf hon ar gyfer y sawl sydd am Barcio a Theithio. Mae disgwyl i deithwyr sy'n parcio ochr Churchill Park wneud hynny ar ochr y ffordd. Ar ochr Genau'r Glyn does ond lle i ryw un ar bymtheg o geir a does dim lle ar ochr y ffordd yn Stryd Llwyn Onn. Ond mae yno gylch helaeth ar gyfer bysiau yn troi, heb orfod bacio. Braf! Ond am un peth - dyw bysiau ddim yn rhedeg i lawr Stryd Llwyn Onn!!

Oni fyddai wedi bod yn fwy buddiol petai'r orsaf hon wedi'i lleoli yn Llanbradach. Ie, ond does fawr o le parcio yn y pentre' yno chwaith. Ond syniad sydd wedi'i wyntyllu yw symud yr orsaf yno ryw 200 llath i'r gogledd fel ei bod wrth yr hen domen lo. Cliriwyd y domen bron i ddeg mlynedd ar hugain yn ôl ond ni wnaed defnydd o'r tir. Dyma fyddai'r lle delfrydol i leoli maes parcio helaeth. Mae gwaelod yr hen dip ochr draw i'r heol sy'n arwain oddi ar y ffordd osgoi ger tafarn y Wingfield, ac mae yno oleuadau traffig. Pe adeiladid mynedfa yno fyddai dim angen i geir fynd drwy Stryd yr Eglwys a Stryd Morgan at y ffatrioedd, y ganolfan gymunedol na'r ganolfan iechyd. Ac oni fyddai hyn yn fodd i roi terfyn ar y ceir sy'n rasio drwy'r pentref er mwyn osgoi'r tagfeydd sydd yn arwain at gylchfan Pwll y Pant?

Does dim digon o fannau parcio ganol y cwm ar gyfer teithwyr o Nelson, Maesycwmer a hyd yn oed Pontllanfraith sy'n dymuno teithio ar y trenau. Gwelir ceir wedi parcio blith draphlith wrth orsaf Ystrad Mynach am nad oes digon o le yn y maes parcio cyfyng. Ac eto prin dwy filltir i lawr y ffordd gellid darparu digon o le yn Llanbradach . Ond beth fyddai barn y trigolion yno?

Ac i ddod yn ôl at broblem y galw eithriadol sydd ar ein trenau ar ddiwrnod gemau mawr. Ond erbyn y gêm rhwng Cymru a De Affrig roedd y cwmni newydd wedi cydnabod y galw mawr ac wedi darparu tri bws i gludo'r sawl fyddai'n ffaelw mynd ar y trê. Edrychwn ymlaen at weld gwelliannau tebyg yn ystod y blynnyddoedd nesa. Y trueni yw nad oes digon o gydweithio rhwng yr asiantaethau sy'n gyfrifol am gludiant: yr heolydd, y bysiau a'r trenau. Wedi'r cyfan mae trafndiaeth yn elfen graidd wrth ystyried datblygiadau economaidd a lles cymdeithasol.



Dyma sut y gallai gorsaf newydd Metro edrych ger Canolfan Mileniwm Cymru (image:Keolis Amey)

Gwasanaeth i'r Gymraeg



Gwahoddwyd Mrs Helen Key, Meithrin Tonyfelin Caerffili, i Noson Wobrwyo yn Aberystwyth nos Wener 19eg o Hydref er mwyn cydnabod ei gwaith dros Gylchoedd Meithrin, i'r Gymuned ac i'r iaith.

Bu Helen yn gweithio'n ffyddlon yng Nghylch

Meithrin Tonyfelin am dros dair blynedd ar hugain. Ac felly mae'n adnabyddus i genhedloedd o blant bach fel Anti Helen, bu'n cyd-weithio gyda chriw ymroddgar yn cynnwys Anti Mari, Anti Dawn, Anti Brenda a sawl "anti" arall.

Does dim sôn am Helen yn ymddeol a hithau'n mwynhau cwmni'r plant a'i chydweithwyr. Teimlai iddi gael eitha' hwb ymlaen wrth dderbyn yr anrhydedd yn Aberystwyth ac mae am barhau am beth amser eto. Wedi'i henwebu gan ffrind, teimlai fod y Noson Wobrwyo yn fuddiol wrth iddi fwynhau'r cyfle o gael gweld yr hyn sydd yn mynd ymlaen mewn rhannau eraill o Gymru, gan elwa o glywed am syniadau a'r grantiau sydd ar gael.

Bellach yn fam-gu, mae'n gobeithio helpu gyda'i hwyron ei hunan. Bydd nifer o'n darllenwyr yn cofio ei meibion, Richard sydd yn 36 erbyn hyn a'i frawd Gareth sydd yn 32. Mae gan Gareth, sydd yn gweithio i Fwrdd yr Iaith yng Nghaerdydd, ferch fach; bachgen bach sydd gan Richard ac yntau'n byw yn Rhydri.

Diolchgarwch Ysgol y Castell

Fel eglwys rydym yn ymfalchïo yn y cysylltiad sy'n bodoli rhyngom â'r ysgolion Cymraeg lleol. Pleser felly ar y dydd Iau olaf cyn hanner tymor, a lliwiau'r hydref yn eu holl ogoniant, oedd cael croesawu adran iau Ysgol y Castell a'u hathrawon atom i ddathlu'r Wyl Ddiolchgarwch flynyddol.


Trwy ddarlleniadau, adroddiadau a chaneuon cyflwynodd y plant eu mawl a'u diolch a hynny mewn modd gartrefol, hwyliog â gwen ar eu hwynebau. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan bob dosbarth yn ei dro a'r rheiny yn pwysleisio'r angen i ddiolch am yr oll a gawn yn gyson – bwyd, cartrefi, gofal a chariad rhieni a'r greadigaeth hyfryd a roddwyd i ni. Diddorol oedd y sgets lle holwyd tri o enwogion y byd modern ynglyn â'r hyn a fyddai'n destun eu diolch hwy. Pwysleiswyd hefyd yr angen i gofio am y rhai llai ffodus a'r angen i ni rannu o'n digonedd gyda hwy. I'r perwyl hwn, bu'r disgyblion yn brysur yn casglu bwyd ar gyfer y Banc Bwyd lleol a daethpwyd ag ychydig o'r cynnyrch a gasglwyd ganddynt i lunio arddangosfa fechan dymhorol ar y llwyfan.

Diolch yn fawr i athrawon Ysgol y Castell am eu gwaith yn paratoi'r plant ar gyfer yr oedfa hon a hynny yn ystod hanner tymor prysur iawn, ac am ddod â hwy i Donyfelin. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu atom eto yn fuan iawn.

Dr Eirian Dafydd



Goleuni yn “Y Dŵch”



Crotyn bach o dre'r sosban yn methu ymuno â'i gyfoedion i chwarae rygbi neu bêl-droed am ei fod yn dioddef o'r gaethder. Ac yn lle cicio pêl yn ei amser hamdden, yn treulio'i amser yn llyfrgell y Pwll, Llanelli. Y bachgen ifanc yn darllen popeth y gallai gael gafael ynddo a hynny, i raddau, drwy anogaeth ei dad-cu.

Buan gweithiodd ei ffordd drwy lyfrau Prydeinig, poblogaidd i blant yn chwedegau'r ganrif o'r blaen, gwaith E. W. Johns (llyfrau “Biggles”), Richmal Compton (“William”) ac eraill. Ond roedd gwell yn ei ddisgwyl wrth iddo raddio i adran ffuglen oedolion a chael ei gyfareddu gan ysgrifennu Charles Dickens. (Bydd hyn oll yn canu cloch, os dych chi wedi darllen ei nofel “Y Storiwr” a enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2012.)

Darllen, meddai, yw'r unig ffordd i ddysgu sut i ysgrifennu. A dyma fe bellach ar drothwy'r trigain ac wedi ysgrifennu dros ddeg llyfr ar hugain, yn ymweld â ni yng Nghlwb Darllen Cwmni i drafod ei waith. Ie, Jon Gower oedd y crotyn bach sydd erbyn hyn wedi dod yn awdur blaengar.

Aeth i Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Llanelli (un o Ysgolion Cymraeg cyntaf Cymru) cyn mynd i'r brifysgol i astudio Saesneg. Wedi graddio, fe oedd un o'r gwrywod cyntaf i fentro drwy fynedfa fenywaidd Coleg Girton yn Rhydychen. Does rhyfedd, felly, mai yn Saesneg y bu'n arfer ei grefft fel awdur. Y llyfr wnaeth ddylanwadu arno'n bennaf yr adeg hon oedd “A Hundred Years of Solitude” gan Gabriel Garcia Marquez.

Yn ystod ei sgwrs yn Llyfrgell Caerffili cawsom ddeall nad llyfrau oedd ei unig ffynhonnell fel awdur, oherwydd mae gan Jon gefndir amrywiol, cythryblus a diddorol. Wedi'i ei adael yn fabi bach wrth ddrws ysbyty cafodd ei fabwysiadu. A bu dylanwad ei fam-gu a'i dad-cu arno'n sylweddol. Ni chawsom wybod pam fod ei fam-gu yn berson mor ofnadwy ond deallom mai hi yw sail portread pob gwrth-arwrwraig yn ei lyfrau! Ei dad-cu ddatblygodd ei ddawn fel storiwr am i hwnnw erbyn ei nawdegau allu adrodd profiadau anghredadwy – ac yntau yn anllythrennog!

Cafodd Jon bleser mawr o weld un o'i athrawon yn yr ysgol gynradd yn dod i wrando arno'n siarad wedi iddo sefydlu ei hun yn awdur. Roedd yr hen ŵr wedi cadw llyfr o eiddo Jon lle'r oedd wedi ysgrifennu ei storïau cyntaf. Yn Saesneg oedd y storïau am ei bod yn arferiad gan yr ysgol i droi at yr iaith fain i baratoi'r plant ar gyfer yr 11+. Yn y stori gyntaf ysgrifennodd Jon am ei uchelgais i fod yn awdur. Roedd ei ail stori am ei hoff berson, a'r person hwnnw oedd ei frawd. Mae'r llyfr ysgol bellach yn dal i fod gyda'r brawd a bu'n fodd i ysbrydoli hwnnw drwy gyfnod anodd yn ei fywyd.

Tra'n gweithio gyda'r BBC y cafodd anogaeth i ysgrifennu yn y Gymraeg. Ei fenter gyntaf oedd cystadlu am y Fedal Ryddiaith pan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Cafodd feirniadaeth galonogol a chynnig i argraffu'r gyfrol, ond yr hyn a saif yn ei gof oedd i un o'r beirniaid ei gynghori nad oedd yn ddigon cyfarwydd â'r iaith lenyddol i fod yn awdur llwyddiannus. Bwrodd ati i wella'r agwedd hon o'i grefft cyn mynd â'r gwaith at yr argraffwyr.

Ansicr fu'r grŵp darllen ynglŷn â'i lyfr “Y Dŵch” ond wedi clywed yr awdur yn traethu, daethant i werthfawrogi'r gwaith fwy. Bydd llawer nawr, mae'n debyg, yn fwy parod i fentro ar ei nofelau a'i straeon byrion o hyn ymlaen.



DEDDF NEWYDD PREIFATRUYDD—DARLLENWCH

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthyh sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â gwefan y papur: entercaerffili.cymru/

Cwmni 

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Dyma'r DEG anrheg mae Siôn Corn wedi'u doddi yn yr hosan. Ydych chi'n gallu dod o hyd iddynt?

SIOCLED OREN DOLI


TEDI TEGAN LLYFR

COMIC PENSIL SEBON

CNAU


Hefyd, mae'r anrhegion wedi'u cymysgu'n ofnadwy yn y r hosan. Ydych chi'n gallu eu hysgrifennu allan yn gywir?

Mae'r ateb i bob pôs ar dudalen 17



Bydd arlunwyr Grŵp Dydd Gwener yn arddangos eu gwaith yn llyfrgell Bedwas o **ddydd Gwener 7^{fed} o Ragfyr** hyd at y Nadolig. Galwch mewn i fwynhau edrych ar y lluniau a chewch

Cip ar y Wenhwyseg – 1



Mae diddordeb yn ein tafodieithoedd gan y rhan fwyaf ohonom. Mae pobl Sir Benfro yn ymfalchïo yn eu 'Wes, wes'; y Cofis yn eu geirfa unigryw - a brodorion Sir Gâr a Cheredigion yn siŵr taw ganddyn nhw mae'r Gymraeg buraf a'r ymadroddion cyfoethocaf. Nid peth

newydd yw hyn. 800 mlynedd yn ôl honnodd Gerallt Gymro taw yn ne-orllewin Cymru - ardal ei fagwraeth, gyda llaw - y siaredid y Gymraeg orau.

Am ganrifoedd ar ôl dyddiau Gerallt roedd y Cymry yn arfer rhannu eu tafodieithoedd yn bedwar teulu, yn ateb yn fras i raniadau traddodiadol Cymru – y gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain; y de-orllewin a'r de-ddwyrain. Rhoddwyd enwau crand arnyn nhw: y Wyndodeg, y Powyseg, y Dyfedeg – a'r Wenhwyseg. Yna, dechreuodd diwydiant ddatblygu, a llifodd miloedd o bobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt i'n hardal ni - cymoedd y de-ddwyrain. Trawsnewidiwyd yr ardal gan y mewnlifiad hwn, ac mae'n bur debyg taw dyma un o'r rhesymau pam roedd yn bosibl erbyn 1906 i ddisgrifio Cymraeg Gwent a Morgannwg fel 'y dafodiaith gryfaf yng Nghymru' oherwydd y niferoedd mawr a siaradai'r Wenhwyseg.

Ond daeth newidiadau cymdeithasol yn ogystal â rhai economaidd i Brydain gyfan yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Honnai adroddiad ar addysg yng Nghymru a gyhoeddwyd ym 1847 (ie, 'Brad y Llyfrau Gleision') fod yr iaith Gymraeg yn un o'r prif resymau pam roedd y Cymry mor anwybodus ac anwareiddiedig.

Rhoddodd Deddf Addysg 1870 bwyslais mawr ar feistroli darllen ac ysgrifennu - yn Saesneg. Magodd llawer o Gymry gywilydd yn eu hiaith - a chredent hefyd y byddai siarad Cymraeg yn rhwystr i'w plant. Dewisodd miloedd o rieni fagu eu plant yn Saesneg, er mor ansicr oedd eu gafael ar yr iaith honno, yn hytrach na throsoglwyddo'r Gymraeg iddynt.

Edwinodd y Wenhwyseg yn gyflym yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn ôl cyfrifiad 1901 roedd 37% o boblogaeth Sir Forgannwg yn siarad Cymraeg - erbyn cyfrifiad 1951 dim ond 25% allai nodi hynny. Mae twf cyflym yr ysgolion Cymraeg eu cyfrwng wedi newid y patrwm yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid y Wenhwyseg sydd ar wefusau disgyblion yr ysgolion hyn. Maen nhw wrthi yn datblygu tafodiaith newydd sbon - ie, maen nhw yn!

Erbyn heddiw, dim ond dyrnaid o hen bobl sy'n dal i siarad rhyw fath o Wenhwyseg. Ac eto mae diddordeb cynyddol yn yr hen dafodiaith hon ymhlith trigolion ein Cwm Ni, yn enwedig y dysgwyr niferus sydd yn rhoi egni newydd i'r iaith yn yr ardal hon. Gobeithiaf dynnu sylw darllenwyr Cwmni i rai o nodweddion amlycaf tafodiaith ein Cwm Ni yn rhifynnau nesaf y papur hwn.

Ond yn y cyfamser, clustfeiniwch ar y ffordd yr yngenir rhai o enwau lleoedd yr ardal hon gan drigolion ein bro. 'Gelligaer' yw'r enw swyddogol ar y mapiau ar arwyddion ffordd – ond beth yw'r ynganiad lleol? 'Penalltau' yw enw'r ysgol gynradd a godwyd yng nghysgod yr hen bwl – ond 'Penallta' oedd enw'r pwll ei hun...

Dr Elin Jones

Penben

Pa fath o anifail yw Saluki? Pwy yw'r Gymraes sy'n cyflwyno The One Show? Pa brifddinas yn y byd yw'r un fwy deheuol?

Os llwyddoch chi i ateb y cwestiynau uchod, fe ddylech gysylltu yn syth gyda BBC RADIO CYMRU, sydd wrthi yn chwilio am gystadleuwyr ar gyfer y cwis Penben.

Cwis gwybodaeth gyffredinol yw'r cwis ac fe fydd y recordio yn digwydd ym Mangor a Chaerdydd ar ddechrau 2019. Rhowch gynnig arni.

Cysylltwch : radio.cymru@bbc.co.uk 03703 500600 (opsiwn 4)

Gyda llaw, ci yw Saluki, Alex Jones sy'n cyflwyno'r One Show a Wellington yw'r brifddinas fwy deheuol.



Llywelyn Bren - 4

Nid yw hanes Llywelyn Bren yn gorffen gyda marwolaeth Despenser, ei brif elyn. Ym 1327 dychwelodd y brenin Edward III diroedd eu tad i feibion Llywelyn, Gruffudd, Siôn, Meurig, Rhosier, Gwilym a Llywelyn. Roedd rhai o hen deuluoedd bonedd ein bro yn ddisgynyddion i'r meibion hyn. Tan ei marwolaeth ym 1349, cafodd Lleucu eu mam bensiwn gan Ieirll Henffordd, disgynyddion yr Wmffre de Bohun, Arglwydd Henffordd, hwnnw fu'n elyn - ac yn edmygydd - Llywelyn Bren. Mae'n amlwg bod parch mawr gan y Normaniaid hyn tuag at Llywelyn o hyd.

Aeth wyth can mlynedd heibio ers marwolaeth Llywelyn Bren. Trist yw nodi cyn lleied o sylw a gaiff ei hanes yma yn ei fro ei hun. Nid yw 800 mlwyddiant ei aberth dros ei bobl wedi ei nodi o gwbl, hyd y gwn i. Mae hynny i'w ddisgwyl, efallai, o gofio ein bod wedi ffocysu cymaint yn ddiweddar ar gofio milwyr y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ar ddathlu diwedd y rhyfel hwnnw y mis diwethaf. Mae colledion y blynyddoedd 1914-18 yn fyw o hyd yng nghof teuluoedd ledled ein bro, ac mae enwau cyfarwydd i'w gweld ar y cofebau rhyfel. Mae hanesion hen dad-cu a'i gyfoedion yn rhan bwysig o etifeddiaeth nifer mawr o deuluoedd ein cwm ni.

Ond o gofio hefyd ddrama a thrasiedi hanes Llywelyn Bren a'r ffordd yr enillodd barch ei elynion trwy ei ddewrder a'i hunanaberth dros ei bobl, mae'n syndod mor brin yw'r cyfeiriadau ato yn y wybodaeth a ddarperir ar gyfer y rhai sy'n ymddiddori yn ein hanes.

Prin yw'r cyfeiriadau ato ar y gwefannau sy'n brolio gogoniannau Castell Caerffili, er enghraifft, ac mae'r rheiny o safbwynt y castell yn bennaf. Nodir taw'r Norman Gilbert de Clare a'i hadeiladodd, a chyfeirir weithiau at yr ymosodiadau aflwyddiannus arno gan Llywelyn ap Gruffudd (Ein Llyw Olaf), Llywelyn Bren a Glyndŵr. Ond pwyslais y sylwadau ar y cyfan yw adeiladwaith cain y castell, ei faint a'i gadernid.

Nid yw safle Cadw yn cyfeirio at Llywelyn Bren o gwbl - er cawn wybod taw 'gŵr bonheddig pengoch o ddisgyniad Normaid' oedd Gilbert de Clare, a bod 'Drysfa Gilbert' yn un o brif atyniadau'r castell. Mae gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn eich anfon at wefan Cadw. Nid oes sôn am Llywelyn Bren ar dudalen *waleshistory* y BBC, a digon dilornus yw'r cyfeiriadau at ryfel Llywelyn mewn gwefannau eraill ar adegau - 'minor Welsh attack', er enghraifft.

Ond rhyfedd fel y mae'r haneswyr hyn yn anghofio taw pwrpas pob castell a adeiladwyd gan y Normaniaid oedd amddiffyn tiroedd ac eiddo a gipiwyd oddi ar frodorion Cymru. Mae'r muriau anferth, y tyrau a'r ffosydd yn sicrhau diogelwch perchnogion y castell, ac roedd y seleri yn stordai bwyd a diod, yn barod i wrthsefyll unrhyw warchae - ac yn brawf eu bod yn ofni ymosodiad gan y Cymry a gollodd eu tir. Ond ymddengys i mi fod eu disgynyddion ar y ffordd i golli eu hanes eu hun. Mae mwy yn ein gorffennol na hanes ein concwerwyr. Mae gan y Cymry hynny eu hanes eu hunain - a storïau sy'n haeddu cael eu hadrodd!

Dr Elin Jones

CYMUNEDAU BYW/CREU CYMDEITHAS

Mae Cymru yn wlad unigryw am lawer iawn o resymau. Pa wlad arall sydd yn medru dweud fod yna gymdeithas o Gymry yn dod at ei gilydd ym mhob cwr o'r byd? Ac yn parhau i gyfarfod yn ffyddlon? Er bod hyn hefyd yn wir mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, yn anffodus mae ambell un wedi mynd.

Mae ein cymunedau wedi newid, ac mae llawer o'r rhesymau yn ymwneud â datblygiadau cyfoes nad ydyn nhw, yn fy marn i, er gwell bob tro.

Beth am ail-adeiladu ein cymunedau? Cyfarfod a chreu cymdeithas Gymraeg i ddod â'n cymdogion at ei gilydd unwaith eto? Mae ein plant angen clywed a defnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol a'r capel.

Beth am hysbysu'r ardaloedd sydd yn cwrdd i greu rhwydwaith o gymdeithasau er mwyn cyfarfod yn achlysurol? Oes rhai yn eich pentrefi neu drefi sydd yn awyddus i gael Cymdeithas Gymraeg a Chymreig?

Fel rhan o grŵp Cymunedau Byw Cymdeithas yr Iaith hoffwn roi cymorth i chi symud ymlaen â hyn.

Croeso ichi gysylltu â fi ar nia@cymdeithas.cymru neu drwy neges neu alwad ffôn ar 07443-035246/01978-448807.

Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi,

Nia Marshall Lloyd
Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith



Ysgol Gymraeg Bro Allta

Croeso



Estynnwn groeso mawr i 30 o ddisgyblion newydd y flwyddyn hon i'r dosbarth Meithrin. Mae'r plant eisoes wedi setlo yn nosbarth 'Sali Mali' ac wedi bod yn mwynhau dysgu yn ôl eu thema gyntaf sef 'Fi Fy Hun'. Rydym hefyd yn croesawu staff newydd i'r ysgol y flwyddyn hon sef Mrs Leah Owen-Griffiths a fydd yn dysgu

Blwyddyn 5 a Miss Emmalee Southwood i'r dosbarth Derbyn.

Pasiant Bro Allta

Fe agorwyd yr ysgol ym Medi 1993 fel canlyniad i'r galw cynyddol am Addysg Gymraeg yn yr ardal. Roedd 127 o blant, Derbyn a Blynnyddoedd 1,2 a 3 ar y cychwyn. Ers hynny, mae'r ysgol wedi tyfu'n gyflym ac erbyn hyn mae dros 300 o ddisgyblion ynddi. Erbyn 1996-97, am y tro cyntaf, roedd ystod o blant o oed Derbyn hyd at Flwyddyn 6, ac ym Medi '97 fe aeth y garfan gyntaf i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ysgol gyfun Gymraeg yr ardal.

Ym mis Gorffennaf 2018, bu perfformiadau o Basiant Bro Allta i ddathlu 25 mlynedd o addysg Gymraeg yn y pentref. Fe ddaeth yr ysgol gyfan ynghyd i adrodd hanes stori ardal Ystrad Mynach dros y cyfnod, o amser diwydiant y Pyllau Glo, streic y glowyr yn 1984-85, agoriad swyddogol ysgol Gymraeg Bro Allta yn 1993 ac yna yn ôl i'r presennol. Roedd llu o wynebau cyfarwydd yn y dorf gan gynnwys cyn-benaethiaid yr ysgol sef Mr Dafydd Idris a Mrs Eirlys Ashton. Yn ogystal â hyn roedd hi'n braf cael cyfarch cyn athrawon, rhieni a chyn-ddisgyblion hefyd. Bu'r perfformiadau yn lwyddiant ysgubol ac fe fydd yr atgof a'r profiadau yn aros yng nghof y disgyblion am flynyddoedd i ddod. Hoffem ddiolch i'r holl staff, rhieni, disgyblion a staff Neuadd y Glowyr am eu gwaith caled!



Taith i'r Ffindir

Yn ystod mis Hydref, fe deithiodd Mr Jones a phedwar o athrawon eraill i'r Ffindir fel rhan o gwrs rheoli cwmni Portal. I dywys yr athrawon ar eu taith oedd 2 diwtor Portal ac fe gafodd y criw'r cyfle i ymweld ag ysgolion amryw ardaloedd dinas Espoo a phrif ddinas y wlad sef Helsinki. O ran canlyniadau byd-eang, mae system addysg y Ffindir yn sgorio'n uchel. Cafodd amryw o gamau diwygio eu rhoi ar waith yno, gyda llawer ohonynt yn debyg i'r newidiadau sy'n digwydd yng Nghymru nawr. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i gefnogi addysgu a dysgu o fis Medi 2021. Pwrpas y trip oedd arsylwi ar wersi a thrafod materion gweinyddol ac arloesi ym myd addysg. Mae Mr Jones yn barod wedi rhannu ei ganfyddiadau gyda staff yr ysgol ar sut i wella elfennau fel "llais y plentyn" yn ein gwersi thema ac wedi gwneud cysylltiadau gyda rhai o'r ysgolion cynradd a aeth ar ymweliad.



Llangrannog

Fe gafodd Blwyddyn 5 y cyfle i ymweld â Llangrannog am y tro cynta y tymor diwethaf. Roedd llwyth o weithgareddau ar gael i'r disgyblion ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad. Maen nhw'n ysu am gael mynd yn ôl ac yn edrych ymlaen at ymweld â gwर्सyll yr Urdd Glanllyn pan fyddan nhw ym Mlwyddyn 6. Diolch i'r staff a'r disgyblion am ben wythnos hyfryd.





Gwersi Ukulele

Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi cael y fraint i ddysgu sgil newydd y tymor yma sef chwarae'r Ukulele. Rydym eisoes wedi meistrolï'r gamp o chwarae cordiau gwahanol ac erbyn hyn yn gallu chwarae 'Ebol Bychain' a 'Sêr y Nos yn Gwenu' yn barod ar gyfer ein gwasanaethau Nadolig! Hoffem ddiolch i'n llywodraethwr, Mr Dafydd Roberts am gynnal y sesiynau wythnosol gyda'r disgyblion.

Cymru yn erbyn Sbaen



Ar yr 11eg o Hydref, fe aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i Stadiwm y Principality i weld Cymru yn croesawu cewri Sbaen. Yn anffodus colli wnaeth Cymru ond roedd y plant wrth eu bodd yn gweld eu harwyr (yn enwedig Gareth Bale a oedd yn dioddef o anaf ond a ddaeth ymlaen i dderbyn gwobr yn saib yr hanner amser). 4-1 i Sbaen oedd y sgôr derfynol ond fe wnaeth y plant fwynhau'r profiad arbennig yma ac rydym yn gobeithio trefnu ymweliad â gêm bêl droed ryngwladol arall yn fuan iawn! Sganiwch y cod QR i'n clywed ni'n canu'r anthem!



Gweithdy Drones

Bu blwyddyn 6 dosbarth y Pwll Glo a dosbarth y Bannau yn brysur iawn yn datblygu eu sgiliau codio er mwyn hedfan drôn o gwmpas trac arbennig yn neuadd yr ysgol. Diolch o galon i Rheinallt o gwmni ExCaelo am drefnu'r gweithdy! Sganiwch y cod QR i weld y gweithdy ar waith.



Ymweliadau



Fel rhan o waith thematig mae Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn astudio'r 'Goedwig Wylt' a'r byd natur o'i chwmpas. Fe aeth dosbarth Mr Griffiths (Y Cewri) i Barc Penallta i wneud gweithgareddau ar y thema. Yn ogystal â hyn fe aeth Blwyddyn 3 a 4 i Ganolfan Dŵr Cymru i gasglu bwystfilod bychain yn y goedwig ac yn y llyn cyn mynd nôl i'r labordy i ymchwilio a'u hastudio ymhellach. Penderfynodd dosbarthiadau Jac y Jwc a'r Genhinen Bedr, eu bod nhw eisiau ymweld â Sŵ Bryste fel rhan o'u thema nhw ar 'Hapusrwydd' y tymor diwethaf. Fe fwynheuodd y plant mas draw ac wedi dychwelyd i'r ysgol fe astudion nhw bob math o ffeithiau gwahanol am yr anifeiliaid. Roedd ambell i blentyn cysglyd ar y daith yn ôl i'r ysgol ond fe gafodd pob un ddiwrnod i'r brenin!

Chwaraeon



Tymor prysur sydd wedi bod i dimau chwaraeon yr ysgol hefyd yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Dros ddwy gystadleuaeth y clwstwr, mae'r tîm pêl droed wedi ennill 8, 5 gem gyfartal a cholli 3. Mae Bro Allta yn drydydd yn y gynghrair ar hyn o bryd gydag un gystadleuaeth arall i'w chwarae cyn y Nadolig.

Bu llwyddiant mawr i dîm pêl rwyd yr ysgol hefyd. Maen nhw ar hyn o bryd yn 2il yn y gynghrair gydag un rownd i chwarae eto.

Llongyfarchiadau yn olaf i dîm traws gwlad yr ysgol a gymerodd ran mewn cystadleuaeth anodd ym mis Hydref.



@ysgolbroallta



learn.caerphilly.org.uk/ygbroallta



Rhai o enillwyr Eisteddfod y Cymoedd eleni

Enillydd cystadleuaeth cerdd dan 50 llinell

Newid

Be
Ben Bonc?
I fana'n amal er stalwm

Ciarpad o lechi bach glas
San draed bob Rha'
Yn tincial fatha topia poteli llefrtih 'rysgol babis

Amball i ynys lyfli o fwsog
Yn grimp o gwmpas y lle
Ychydig o redyn rownd y bowndri
Mor dena a ffrâm beic – a llinell debyg
O griw swnllyd ar y doman ddiog uwchben
Ger y ffor giami o dyllog
Yn clapio'n wya pasg o ffeind.

Pawb bron
Yn mwynhau

Finna

Ar y ffin bella bella Un diwrnod yn
Clywad grwndi

Adam Faith yn fy nghlustia – ac isio
Rili isio mynd

*Iesu. Dal y ffwcen bêl na nei di
Brych!*

Ond yna'n sydyn –
Yno'n eu gwydd

Fe newidiwyd ei wedd

*Aeth ei ddillad
Yn ddisglair wyn Yn wynach nag y gallai'r*

*Un Canwr
Glandeg drefnu*

Rhwng dau fys poenus
Pêl Yn swatio
Ac mewn eiliada o weiddi epileptig
Hîro dân
Newydd ei eni

*Dechreuasom holi eu gilydd
Pwy oedd Hwn
Oedd yn cerad yng nghysgod yr arwr
Gary Sobers?*

Uwchben
Rhwng y nen oddifri a'r
Tomeni segur
Hyll Oglâ melyn braf
Yn driffio'i ffor
Lawr – Lawr
A fyny'r ffroena
Parod

Fyny fano – Dyna'r lle oedd hi

Yn hanner stagio
Yn sbio yn slei slei
Slô slô bach.....

John Roberts

Enillydd y gystadleuaeth llunio englyn

Y Telynor

Clywed heb weled oedd ei wae - â'i glust
gwelai hwn y tannau'n
ei ddwylo'n asio gan wau
alaw a chynnau'r gorau.

John Lloyd

Enillydd y gystadleuaeth ysgrifennu limrig

Aeth Neli i fyny i'r Bala
I weithio fel casglwr afala'
Wrth freuddwydio am seidr
Ni welodd y neidr
A ymlusgodd o'i thraed at ei bola

Morus Jones
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Ysgrifennwch! Ysgrifennwch! Ysgrifennwch! Ysgrifennwch!

Mae'n rhaid bod barn gennych, bob un, am erthyglau neu syniadau a fynegir yn
"Cwmni". Beth am roi gwybod i ni, felly? Ysgrifennwch bwt ar e-bost i gynnig cywiriad,
canmoliaeth, barn, sylwadau neu unrhyw wybodaeth arall at
benamary2000@yahoo.co.uk. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

EGLWYS GOREAIDD YN NHONYFELIN

Tybed faint ohonoch a wŷr am y cysylltiad Cristnogol rhwng Corea a Chymru? Wrth i ymweliad Eglwys Coreaidd Cymru ag Eglwys Tonyfelin agosáu, dyma fynd i dwrio ychydig, a darganfod yr hanes rhyfeddol am y Parchedig Robert Jermain Thomas a fynnodd fynd â'r efengyl i'r wlad bellennig hon yn 1866. Un a aned yn Rhayadr oedd y Parchedig Robert Thomas, a bu ei dad yn weinidog ar eglwys Hanover, Llanofar, ger y Fenni. Yn ŵr ifanc aeth i genhadu i Tseina. Byr a thrist iawn fu ei gyfnod yno ond serch hynny, penderfynodd droi ei olygon tuag at Corea gan ddysgu ei hiaith mewn cyfnod byr. Gwlad a oedd yn deyrnas feudwyaid oedd Corea ar y pryd, oherwydd bod ei llywodraeth yn ofni unrhyw ddylanwadau tramor.

Llwyddodd Robert Thomas i gael gwaith fel cyfieithydd ar long Americanaidd a oedd yn gobeithio cychwyn cyswllt masnach rhwng UDA a Corea, ac o ganlyniad fe gâi yntau y cyfle i gyflwyno'r efengyl i Corea. Ond wrth i'r llong agosáu at Pyongyang fe ymosodwyd arni a bu Robert Thomas yn taflu copïau o'r Beibl i'r lan yn y gobaith y byddai'r trigolion yn eu pigo i fyny a'u darllen. Pan ddrylliwyd y llong bu raid iddo ef a'r criw nofio i dir sych. Yno cawsant eu dienyddio ond ddim cyn i Robert Thomas bledio gyda'i ddienyddiwr i gymryd ei gopi ef o'r Beibl a'i ddarllen. Cymaint oedd dylanwad Robert Thomas ar ei ddienyddiwr fel y cadwodd y copi o'r Beibl a phapuro waliau ei dŷ gyda'r tudalennau. Daeth pobl o bell ac agos i ddarllen y geiriau a thros y degawdau tyfodd eglwys fechan yn eglwys gref. Ganrif a hanner ar ôl llofruddiaeth erchyll Robert Thomas yn 1866 mae De Corea yn anfon mwy o genhadon allan i'r byd nag unrhyw wlad arall.



Yn ystod yr oedfa fendithiol a gawsom dan arweiniad Eglwys Coreaidd Cymru a'i gweinidog -y Parchg Jacob Park, cawsom brawf diamheuol o ddiolchgarwch y Coreaid tuag at Gymru. Gwylaid a diolchgar oedd ymarweddiad y gweinidog wrth adrodd yr hanes trist am Robert Thomas a'r modd y bu i'w aberth ef ddod yn gyfrwng i ledaenu'r efengyl yng Nghorea. Arwydd o ddiolchgarwch yr eglwys yw ei hawydd i fynd allan a chynnal oedfaon ar hyd a lled Cymru a chenhadu ymhlith cymdeithas seciwlar y Gymru fodern. A'u gobaith a'u gweddi cyson yw am ddiwygiad arall yma yng Nghymru.

Daeth yn amlwg hefyd fod cerddoriaeth yn rhan bwysig ac annatod o'u haddoliad. Clywsom ddatganiadau teimladwy ei naws o gerddoriaeth grefyddol gan unawdydd, triawd a chôr yr eglwys. Cawsom hefyd gyfle i wrando ar lanc ifanc yn canu'r ocarina – offeryn cyffredin yng Nghorea. Mae'r offeryn chwyth bychan hwn yn ymdebygu o ran siâp i wy a'i sain mesmereiddiol yn atgoffa'r gwrandawr o'r fflwt. Pwy na allai weddio'n dawel wrth wrando ar y llanc ifanc yn canu'r emyn-dôn adnabyddus '*Here I am, Lord*'. Cawsom wedyn gyfle i ganu i gyfeiliant yr ocarina a'r allweddellau.

Cyffyrddwyd y gynulleidfa nid yn unig gan y datganiadau a diffuantrwydd ffydd y Coreaid ond hefyd gan yr ymdrech a wnaeth yr eglwys i gydnabod y Gymraeg. Cawsom air o groeso yn iaith y nefoedd gan un o'i phobl ifanc a chanodd y gweinidog bennill cyntaf yr emyn '*Dyma gariad fel y moroedd*' yn y Gymraeg a'r iaith Goreaidd. Oedfa dair-ieithog a gafwyd yma yn cyfannu pobl o ddau gyfandir tra gwahanol ac amrywiol eu traddodiadau a'u hanes ond yn un yn eu nod i foli Duw.

Beth fydd yn aros yn y cof am yr oedfa hon? Yn sicr, diffuantrwydd ffydd y Coreaid, eu gwyleidd-dra, eu diolchgarwch a'u cerddoriaeth swynol.

Eglwys fechan o ryw ddeg-ar-hugain o aelodau yw Eglwys Goreaidd Cymru, rhai o'r rhain yn gweithio yng Nghaerdydd a'r cyffiniau ac eraill yn fyfyrwyr yn y ddinas. Maent yn cyfarfod bob prynhawn Sul yng Nghanolfan Eglwysig Bryn Drain yng Ngogledd Caerdydd. Eu dymuniad yw ymweld â phob capel yng Nghymru. Mae croeso i unrhyw gynulleidfa i estyn gwahoddiad iddynt a rhannu yn eu haddoliad.

Dr Eirian Dafydd

Priodas Gareth a Nid



Daeth nifer dda o aelodau Merched y Wawr Cwm Rhymni i noson Gwyneth Davies yn Ysgol Penalltau. Bu hi'n rhannu profiad ei theulu ar achlysur priodas Gareth, mab Gwyneth a'i gŵr Gwyn, yng Ngwlad Thai fis Ionawr eleni. Bu'r briodas yn ninas Bangkok ar lannau'r afon Chao Phraya. Cwrddodd y priodfab, Gareth â Nid tra oedd yn gweithio gyda'r Cyngor Prydeinig yn Bangkok.

Eglurodd Gwyneth y traddodiadau priodasol yng Ngwlad Thai gan gynnwys y paratodau, y seremoni a'r gwledda. Yn y llun ar y chwith fe welwch Gareth a Nid gyda'u rhieni yn ogystal â Bethan, chwaer Gareth, a

hefyd brawd a chwaer-yng-nghyfraith Gwyneth. Mae Gareth a Bethan yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Diwedd y broses swyddogol yw derbyn y dystysgrif briodas gywrain a welir yn y llun ar y dde. Esboniodd Gwyneth y broses hir o gael y dystysgrif ond mae'n werth yr aros fel y gwelwch yn y llun. Derbyniodd Gareth a Nid y dystysgrif hon ym mis Hydref.

Erbyn hyn mae Gareth yn gweithio ym Mhrifysgol Abertawe yn yr adran e-ddysgu.

Mae Bethan yn gweithio fel cyfarwyddwr cysylltiol gyda chwmni cysylltiadau cyhoeddus yn Llundain ond yn dod adre i wneud ymchwil a holi pobl yn Gymraeg o bryd i'w gilydd.

Pob dymuniad da i'r teulu.



Cofio Glenys Humphreys



Yn 95 oed, bu farw Glenys Humphreys o High St, Senghenydd. Bu ei phriod Haydn Humphreys yn gwerthu glo am flynyddoedd lawer yn yr ardal, ac roedd y ddau yn uchel eu parch yn y gymdogaeth. Gwraig o Sgiwen, Castellnedd oedd Glenys ac yn falch o'i thras, ei hiaith a'i chrefydd. Bu'n selog i Salem, Senghenydd o'r amser iddi symud i'r pentref hyd at amser cau'r achos ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Magwyd pedair o ferched ar yr aelwyd, Delyth sy'n byw yng Nghricieth, a Judith, Eira a Mair, sy'n byw yng Nghaerffili.

Bu Glenys gyda'r olaf o'i chenhedlaeth i siarad Cymraeg yn Senghenydd, ac roedd mor falch bod yr Ysgol Gymraeg wedi agor ac iddi weld nifer o'i hwyrion hithau yn medru'r iaith Gymraeg. Cafodd ei hyfforddi fel gweinyddes ond roedd ganddi ddigon o waith i gadw aelwyd lân a chysurus, a chefnogi ei phriod a'i phlant yn eu gwaith hwythau, i beidio ceisio am swydd llawn amser yn arfer ei chreffft. Roedd yn wraig wylaidd a gostyngedig ac yn hael ei chymwynas i bawb. Bu'n rhan o gylch clos o ffrindiau yn y pentref, ac wedi cau Salem ac Ebeneser, ynghyd a nifer o eglwysi eraill yn y pentref, daeth y selogion ynghyd yn yr Eglwys

Ddiwygiedig Unedig a mwynhau'r gwmniaeth yno. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phlant a'i hwyrion, wrth gofio un o foneddigesau addfwynaf y cwm.

Y Parch. Denzil John

Cyfarchion mis Rhagfyr i chi i gyd. Gobeithio eich bod yn mwynhau dod ar draws idiomau Cymraeg ac yn cael cyfle i'w defnyddio. Mae idiomau'r mis yma yn disgrifio'r tywydd, ac rydyn ni'n siarad llawer am y tywydd o ddydd i ddydd

1. **bwrw hen wragedd a ffyn** : *raining cats and dogs (old women and sticks!)*
2. **arllwys y glaw** : *pouring with rain*
3. **yn dywyll fel bola buwch ddu** : *extremely dark (like a black cow's stomach)*
4. **rhewi'n gorn** : *freezing hard*
5. **yn chwilboeth** : *very hot*
6. **gwynt traed y meirw** : *a cold east wind (the wind of the feet of the dead)*
7. **rhif y gwlith** : *countless (as many as there are droplets of dew)*
8. **plu eira** : *snowflakes (feathers)*
9. **mae'r haul yn gwenu** : *the sun is shining (smiling)*
10. **llwydrew** : *ground frost (grey frost)*

Eich pos Nadolig yw rhoi rhif yr idiom gywir wrth bob llun. Mwynhewch!

dod ar draws : come across

cyfle i'w defnyddio : a chance to use them

o ddydd i ddydd : from day to day

pos : puzzle

1. 	2. 	3. 	4. 	5. 
6. 	7. 	8. 	9. 	10. 

Mae'r atebion ar dudalen 17

CAIS AM ENGLYNION BEDD

Tybed a fydddech mor garedig â chyhoeddi'r nodyn isod yn eich papur. Ledled Cymru, yn y Wladfa, Lloegr a'r Unol Daleithiau y mae tuag ugain mil o englynion bedd. Mae'n bosibl bod y cynharaf yn dyddio o 1570 ac mae'n draddodiad amrywiol, cyfoethog ac un sy'n fyw hyd heddiw. Cyhoeddwyd sawl casgliad dros y blyneddau ond erys rhannau helaeth o Gymru heb eu harchwilio, ac yr ydym yn prysur golli llawer i draul yr hin. Yr ydym hefyd yn colli'r wybodaeth leol sydd ei angen i'n goleuo am gynnwys a chyd-destun llawer ohonynt. Er mwyn ceisio diogelu'r agwedd hon ar ein treftadaeth y mae cynllun ar y gweill i gofnodi'r cwbl trwy dynnu lluniau ohonynt. Y mae eisoes miloedd o luniau ar y grŵp Facebook *Englyn Bedd* ond mae angen pobol a fyddai'n fodlon ymweld â'r mynwentydd lleol a thynnu lluniau gyda'r smartphone. Byddem yn gwirioneddol werthfawrogi pob cyfraniad. Mae croeso ichi ymuno â'r grŵp Facebook neu anfon neges i gutorhys@yahoo.com.

Dr Guto Rhys

Colofn Dafydd Islwyn

Nadolig eleni eto byddaf yn darllen dwsinau o englynion yr Ŵyl, englynion sy ar go' llengarwyr a rhai newydd. Yn eu mys y bydd rhai gan Eirian Davies (1918-1998) a fu'n weinidog gyda'r Hen Gorff yn yr Hirwaun, Brynaman a'r Wyddgrug. Wrth ddwyn i go' un o feibion Y Llain, Nantgaredig, Caerfyrddin cofiais amdano fel bardd, hoelen wyth Ymryson y Beirdd cyfnod Sam Jones, Bangor 1949-63; a beirniad yn y Genedlaethol.

Drwy gystadleuaeth y soned y daeth Eirian i blith enillwyr yn y Genedlaethol. Cyn hynny roedd enw da iddo fel bardd ymhlith ei gyd-feirdd. Onid oeddynt o'r farn fod prifardd y dyfodol yn eu mys? Erbyn heddiw gellir dweud nad bardd eisteddfodol oedd ef. Mae ei soned "Y Ffoadur" i'w darllen ym mlodeugerdd Rhydychen 1962. Ddiwedd y flwyddyn honno gweithiodd un o'i sonedau gorau, sef "1962", blwyddyn marw Llwyd o'r Bryn, Bob Owen, Croesor a'r Dr Tom Richards, Bangor. Y cwpled clo yn afaelgar,

Y Beili Angau a ddaethost yma fel chwalwr dewr.
Am i ti glywed bod y genedl wedi mynd yn fethdalwr.


Bu J. Eirian Davies yn weinidog yn Hirwaun o 1942 tan 1954; Brynaman 1955-61 a'r Wyddgrug am ugain mlynedd tan 1981. Yn y dair ofalaeth bu yn ymwneud â thimau Ymryson y Beirdd: Tîm Aberdâr, Tîm Sir Gaerfyrddin a Thîm y Fflint. Cyhoeddwyd chwe englyn cywaith Sir Gaerfyrddin yn y gyfrol "Awen Myrddin" (1959). Ceir dylanwad y gweinidogion oedd yn y tîm ar yr englyn am y Mab Afradlon,

Wedi hau efrau afrad, - wedi byw
Mewn gwlad bell ddigariad,
Duw a'i gwêl a daw galwad
O nos tywyll i fynwes tad.



Y Parchedig J. Eirian Davies

Bu Eirian Davies yn beirniadu nifer o weithiau yn y Genedlaethol, rhwng 1956 a 95 bu wrthi yn mesur a phwyso gwaith y beirdd ddau ddeg gwaith. Daw tair beirniadaeth yn syth i'r co'. Ef oedd y cryfaf ei farn dros Goroni Rhydwen Williams am ei bryddest "Ffynhonnau" yn 1964. Ymhen tair blynedd roedd yn tynnu blewyn o drwyn ei gyd-englynwyr drwy atal gwobr yr englyn. Derbyniodd y gwahoddiad i feirniadu'r englyn yng Nghwm Rhymni yn 1990. Gwobrwyodd R. J. Rowlands, Y Bala.



Ym mhob casgliad o Gerddi Nadolig ceir englynion gan Eirian. Yn "Hoff Gerddi Nadolig" golygydd Bethan Mair, Gwasg Gomer 2004 ceir yr englyn,

"A hwy gawsant y Dyn Bach....."

Ni wyddom am ddim rhyfeddach, - Crëwr
Yn crio mewn cadach,
Yn faban heb ei wannach
Duw yn y byd fel Dyn Bach.

Yn y drydedd gyfrol o gerddi Eirian, Cyfrol o Gerddi Gwasg Gee 1985, "Duw Mewn Dyn" ydy teitl yr englyn. Tri englyn y byddaf yn eu darllen y Nadolig hwn fydd,

Geni'r Baban


Mireinder o gôl morwyndod, - y Gair
Yn y gwellt i'w ganfod;
Duw un dydd i'n byd yn dod
Heb i neb Ei adnabod.

Gweddi

Heddiw mewn oes anniddig, - i'n harwain
Dyro'r Seren ddiddig
A dawelo'r Nadolig
Lle bo gwreichion dynion dig.

Pe deuai eleni eto

Ni flinem ar Ei foliannu – o'i gael
Yn fab gwyn o deulu;
Petrusem, petai'r Iesu
Yntau'n dod yn blentyn du.



Galwch draw i fragdy **Twt Lol** ar Ystâd Ddiwydiannol Trefforest lle mae llond côl o groeso yn eich disgwyl, a hynny yn y Gymraeg.

Mae Phillip Thomas, sy'n wreiddiol o Fleur-de- Lis, ac a fynychodd ysgolion Trelyn a Gwynllyw, wedi bod yn bragu cwrw yn Nhrefforest ers tair blynedd a hanner. Ar hyn o bryd mae'n cynhyrchu 6,000 peint o amryw fathau o gwrw bob wythnos. Ond mae e'n gwerthu llawer iawn mwy na hynny! Er mwyn diwallu'r galw, mae'n "benthg" a chyfnwid cwrw gydag amryw fragdai cymunedol eraill hyd a lled Prydain. Mae hyn yn golygu bod yfwyr

yn mwynhau ei gwrw yma yng Nghymru ac yn Lloegr.

Ond beth mae'r cwsmeriaid hyn yn gwneud o'r enwau Cymraeg sydd ar yr ystod helaeth o gwrw? Dim ots! Mae cyfieithiad ar bob un botel. Mae'r arlwy yn amrywio o gwrw tywyll i'r math mwy golau. Ond am yr enwau! "Dreigiau'r Diafol", "Cwrw'r Afr Serchog", "Pewin Ynfytn", "Elweri", "Buwch Goch Gota", "Glo in the Dark", "Cymryd y Pyst", "Glog", "Twti Ffrwti" "Blwbri" a "Bwgan Brain" ac ati. A Faye, gwraig Phil, sydd wedi llunio'r labeli hynod hyn. Mae hithau yn gweithio i'r Mudiad Meithrin yn ogystal.



Dim ond ar ddydd Gwener, fel arfer, mae'r siop ar agor yn Nhrefforest ond gallwch brynu ar-lein, er y bydd y siop ar agor yn amlach dros adeg y Nadolig. (Gallwch ddod o hyd i'r oriau agor ar y wefan www.twtlol.com). Mae'r prisiau yn rhesymol am gwrw mor dda gyda gostyngiad wrth brynu mwy: 3 potel am £9; 6 am £16 a 12 am £28. A bydd y bragdy yn hysbysebu yn "Cwmni" y flwyddyn nesa. Mae'r



bragdy ond '5 munud o gerdded o orsaf trên ystâd Trefforest neu 5 munud o'r orsaf fysiau ochr draw yr afon.

O bryd i'w gilydd cynhelir "Lolffest" yn y bragdy. Gŵyl gwrw yw hon pan agorir yr uned ar gyfer ymwelwyr er mwyn iddyn nhw gael gweld y broses fragu ac, wrth gwrs, i brynu cwrw. Bydd yr un nesaf ar y 30ain o Dachwedd a'r 1af o Ragfyr. Cyfle felly i brynu cwrw yn anrheg Nadolig. Dewch draw i gefnogi busnes a gynhelir yn y Gymraeg ac i joio'r arlwy braf!

ATEBION

Dyma atebion posau'r dysgwyr ar dudalen 15

- 1.bwrw hen wragedd a ffyn
- 2.plu eira
- 3.yn dywyll fel bola buwch ddu
- 4.mae'r haul yn gwenu
5. rhif y gwlith
6. rhewi'n gorn
7. llwydrew
8. arllwys y glaw
9. yn chwilboeth
10. gwynt traed y meirw

Dyma atebion Posau'r Plant ar dudalen 7. Sawl un gawsoch chi'n iawn?



Ac yn yr hosan: ➡ eldisco = siocled

reno = oren

lido = doli

edit = tedi

ganet = tegan


fryll = llyfr

micco = comic

neslip = pensil

snobe = sebon

acun = cnau



Crefftiau Nadoligaidd

Caffi Yr Ystafell Fyw,
Tredegar Newydd

Rhagfyr 14 £5 10:00-14:00



Sesiwn 'drop-in' i grefftio eitemau Nadoligaidd yn hamddenol a chael sgwrs paned yn gynwysiedig. Croeso mawr i bawb. Nid oes angen bwcio.

Gwersfeistr Ceginio

i oedolion

£25

Byddwn yn darparu'r cynhwysion

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 15

10:00 - 14:00

Ystafell Ceginio

Safle Y Gwyndy, Caerffili

Rhaid bwcio cyn Rhagfyr 7fed



Gawl Pannas a Gellyg



Wellington
'Beetroot & Squash'



Chwyr!
Stollen / Sinamon

Gwasanaeth Nadolig Gymunedol Menter Caerffili

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach
Rhagfyr 16 December
17:00



Hanes Cwm Ni

10/1/19 Yr Athro Keith Bush

Cyfraith ac Anrhefn yng
Ngorllewin Gwyllt Cymru - Hanes
Cythryblus Pwll Esgair-Y-Mwyn

7/2/19 Allan Cook

Te a China

7/3/19 Rob Evans

Smyglwyr Cymru



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrandu. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL

Canolfan y Glowyr, Caerffili

Hen Ysbyty'r Glowyr

Datrys Dirgelwch



Nos Fawrth 11eg o Ragfyr
8:00 o'r gloch

£10 (i gynnwys bwffe blasus)

Rhaid prynu tocyn o flaenllaw
Tocynnau ar gael trwy ebostio
cathdduglanffrwd@yahoo.co.uk

Yr elw at ddatblygu'r Ganolfan

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach



BYW Y BEIBL

Cyfarfod defosiynol misol – croeso i bawb
10.30 – 11.30 ar fore Llun

3 Rhagfyr - Bendithion a Mellthion (Luc 6:20 - 26)

7 Ionawr – Dod yn debyg i'r Athro (Luc 6: 27 – 42)

Astudiaeth Lluniaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk /
www.siloh.co.uk

01443 813617

CF82 7AF

Fab Fabrics
@FabFabrics
Fab Fabrics, Ystrad Mynach
Tel. 07964 822865
fabfabrics99@gmail.com



www.iwcs.cymru

Sesiynau pob
Nos Fawrth
Clwb Rygbi
Penallta

6.00 – 8.00

£5 y sesiwn

07745927308

Iwscycwm2015@gmail.com

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Rhagfyr 3ydd – Hen Bethau
Anghofiedig - Mihangel Morgan

Ionawr 7fed – Digon i'r Diwrnod
gan Geraint Evans

Chwefror 4ydd –
Fel Aderyn - Manon Steffan Ross

peneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes

Côr Cwm Ni CYNGERDD NADOLIG BLYNYDDOL

Eglwys y Drindod Sanctaidd
Ystrad Mynach

7:00 o'r gloch
Nos Fawrth, 4ydd o Ragfyr

Croeso Cynnes i bawb



JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol Bowen, Aberbargoed,

Merched y WawrCwm
Rhymni



Ymweliad Nadoligaidd â
Gardd Hillcrest
Cefn Fforest
Nos Fercher, 12^{fed} o Ragfyr
3.00 o'r gloch

Festri Tonyfelin, Caerffili

Llenyddda

Barddoniaeth Eisteddfod eleni
gyda

Yr Athro E. Wyn James

Nos Iau, 13eg o Ragfyr
7:00 tan 9:00

Croeso Cynnes i Bawb

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Ysgol Lewis i Ferched
Ystrad Mynach

Triawd Piano Seisnig

26^{ain} o Ionawr
2:30

Pam Adnoddau Staffio?



Sefydlwyd Adnoddau Staffio yn benodol i weithio o fewn y sector drwyddedig a diwydiannol gan ddarparu staff ar gyfer cwmnïau Bwyd, Diod a Diwydiannol.

Mae gennym staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio yn benodol ar eich sector chi. Gyda gwybodaeth eang o reoliadau'r sector, mae ein polisi and gweithdrefniadau wedi'u llunio i'ch cefnogi, fel client.

Deallwn fod gennym gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol i warchod ein gweithwyr ac mae gennym bolisiau penodol yn eu lle i osgoi delio mewn pobol a chaethwasiaeth fodern - problem o fewn y diwydiant.

Cyfarwyddwr Reolwr: **Steven John Skivens**
steves@resourcestaffing.co.uk

"Yn gweithio i leihau neu ddileu risg"

ASESIAD RISG -

YDYCH CHI WEDI GWNEUD UN?

I nodi pris gan Asesydd Tân cymwys heb unrhyw rwymedigaeth:

Cysylltwch â ni:

029 20 888798 07812 636655

PFSS@hotmail.co.uk



- * Cynllunio a Rheoli Cymunedau Busnes
- * Cyngor arbenigol a chymwys
- * Offer tân ac achub
- * Hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol
- * Cyngor ac Ymgynghoriad
- * Cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau
- * Asesiad ac archwiliad risg
- * Addasu adeiladau
- * Ardaloedd arbenigol
- * Systemau nyrsys ar alwad
- * Larwm tân a goleuadau brys
- * Gosod a gwasanaethu offer
- * Profion trydanol

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Dydd Gwener 14 Rhagfyr

"Arwyr Cymru"

Jon Gower

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili
Cofiwch hefyd am y bore coffi

Bedwas, Caffi'r Graig

bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspoons), Caerffili bob dydd Mawrth o
10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Bob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion, Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

#DIWRNODSIWMPERNADOLIG



**Y DIWRNOD MWYAF,
GWLANOCAF, HAELIONUS
O'R FLWYDDYN**

Achub y Plant
DIWRNOD SIWMPER NADOLIG

Rydym ni'n ymuno yn yr hwyl Nadoligaidd
ar Ddiwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant!
Cofiwch wisgo eich siwmpwr mwyaf dwl a rhoi £2.

christmasjumperday.org/fundraising-pack

Partenïwr parhau

Amazon Fashion

VISA

Prifysgol ym
FUNDRAISING
REGULATOR

Mae Achub y Plant yn elusen wedi ei gfrestru yn Lloegr a Chymru (01386) 611 Allen (SC039537)